# Gweithgareddau'r Haf - Holiadur Ciplun o Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru



## Comisiynydd Plant Cymru

## Gorffennaf ac Awst 2024

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

# Cyflwyniad

Yn ystod mis Gorffennaf ac Awst 2024 buon ni’n gofyn barn plant a phobl ifanc am eu meddyliau am weithgareddau'r haf yn eu hardal leol.

Roedd yr holiadur yn rhan o gyfres o gwestiynau ar wahanol bynciau rydyn ni’n eu gofyn i blant a phobl ifanc bob mis, dan yr enw Materion Misol, er mwyn clywed eu barn ar amrywiaeth o bethau. Cafodd ei rannu’n uniongyrchol â’r holl ysgolion sy’n rhan o’n cynlluniau hawliau plant ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd, yn ogystal â grwpiau cymunedol.

Fel rhan o becyn yr holiadur, dangoswyd fideo i’r plant a’r bobl ifanc, yn cyflwyno’r pwnc, a gofynnwyd iddyn nhw ystyried rhai cwestiynau fel beth yr oeddent yn mwynhau gwneud yn eu hardal leol dros yr haf, ydyn nhw'n credu bod digon i'w wneud, ac os oes unrhyw beth sy'n eu hatal rhag gwneud yr hyn maen nhw'n ei fwynhau. Yn yr amlinelliad ar gyfer y sesiwn, roedden ni’n awgrymu, ar ôl gweld y fideo, y dylai plant a phobl ifanc gael amser i drafod eu barn gyda’i gilydd cyn ateb yr arolwg. Roedd gan ysgolion ddau opsiwn ar gyfer cwblhau’r holiadur; gallai plant a phobl ifanc ei wneud yn annibynnol, neu gallai athro gwblhau’r holiadur ar ran y grŵp, gan ateb set wahanol o gwestiynau i roi trosolwg o’r drafodaeth.

Atebodd 434 o blant a phobl ifanc yr holiadur yn unigol. Bu 885 o blant eraill yn cymryd rhan mewn grwpiau, gydag athrawon a gweithwyr ieuenctid yn cyflwyno crynodeb o’u barn. Cymerodd ystod eang o oedrannau ran, o blant o dan 7 i rai at 17 oed. Derbyniwyd ymatebion gan ysgolion a grwpiau o fewn 19 awdurdod lleol.

Datblygwyd y cwestiynau gan dîm staff profiadol y Comisiynydd ar sail themâu oedd wedi dod i’r amlwg mewn ymarferion ymgysylltu blaenorol gyda phlant, pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol.

# Cwestiynau i'r plant a bobl ifanc

**Beth wyt ti'n hoffi gwneud dros y gwyliau ysgol?**
**Dewisia pob un rwyt ti'n hoffi.**

Treulio amser gyda theulu (276) - 66%
Mynd/chwarae tu allan gyda ffrindiau (260) - 63%
Chwaraeon a nofio (257) - 62%
Mynd i weld ffrind yn eu cartref (256) - 62%
Chwarae neu dreulio amser adref (252) - 61%
Mynd i'r parc (251) - 61%
Tripiau allan gyda'r teulu/ffrindiau (237) - 57%
Mynd i'r traeth (227) - 55%
Sinema/bowlio (195) - 47%
Rhywbeth arall (142) - 34%
Clybiau haf a gweithgareddau (121) - 29%
Clwb ieuenctid (55) - 13%
Cynllun chwarae (playscheme) (45) - 11%

Os eu hateb oedd 'Rhywbeth arall' gofynnwyd cwestiwn arall iddynt:

**Beth arall wyt ti'n hoffi gwneud?**

Dyma themâu'r atebion mwyaf cyffredin:

- Chwarae gemau ar-lein
- Chwaraeon
- Gweithgareddau corfforol arall

**Oes unrhywbeth sy'n stopio ti rhag gwneud y pethau hyn?**

Oes (167) - 41%
Nac oes (161) - 39%
Dwi ddim yn gwybod (84) - 20%

Os ddewison nhw ‘Oes’, gofynnwyd cwestiwn arall iddynt:

**Beth sy'n stopio ti?**

Y tywydd (82) - 50%
Rhy ddrud (72) - 44%
Rhieni/gofalwyr yn dweud na (58) - 35%
Methu cyrraedd yna / rhy bell i ffwrdd (55) - 33%
Rhywbeth arall (48) - 29%
Dwi'n rhy ifanc / dwi'n rhy hen (38) - 23%
Ffrindiau ddim yn byw yn ddigon agos (30) - 18%

Os eu hateb oedd ‘Rhywbeth arall’ gofynnwyd cwestiwn arall iddynt:

**Beth arall sy'n stopio ti?**

Dyma themâu’r atebion mwyaf cyffredin:

- Pobl ifanc arall
- Rhieni neu aelodau arall o’r teulu
- Cynlluniau teuluol arall

**Oes yna ddigon i wneud yn dy ardal lleol?**

Oes (254) - 62%
Nac oes (112) - 28%
Dwi ddim yn gwybod (41) - 10%

Os eu hateb oedd ‘Nac oes’ gofynnwyd cwestiwn arall iddynt:

**Beth hoffet ti gael mwy o gyfle i wneud?**

Dyma themâu’r atebion mwyaf cyffredin:

- Parciau chwarae/ardaloedd chwarae
- Cyfleusterau chwaraeon
- Canolfannau hamdden

**Ydy e'n hawdd ddod o hyd i wybodaeth am beth sy'n digwydd yn dy ardal lleol?**

Ydy (204) - 51%
Nac ydy (109) - 27%
Dwi ddim yn gwybod (88) - 22%

**Sut wyt ti'n dod o hyd i'r wybodaeth yma?**

Dyma themâu’r atebion mwyaf cyffredin:

- Gan rieni/teulu/ffrindiau
- Ar-lein
- Cyfryngau Cymdeithasol

**Wyt ti'n gwybod beth fyddi di'n gwneud dros yr haf?**

Ydw (280) - 69%
Nac ydw (128) - 31%

Os eu hateb oedd ‘Ydy’ gofynnwyd cwestiwn arall iddynt:

**Beth fyddi di'n gwneud?**

Dyma themâu’r atebion mwyaf cyffredin:

- Mynd ar wyliau
- Gweithgareddau chwaraeon
- Treulio amser gyda ffrindiau

Pan ymatebodd athrawon neu arweinwyr grŵp ar ran y grŵp, roedd eu atebion yn adleisio'r atebion a roddwyd gan blant yn uniongyrchol.

## Diweddglo

- Mae costau byw yn bryder cyson i deuluoedd yng Nghymru, gan gynnwys plant a phobl ifanc, fel y mae ein hadroddiad blaenorol Gobeithion i Gymru yn amlygu. Mae hyn yn cael ei ategu yng nghanfyddiadau'r holiadur yma gyda phlant a phobl ifanc yn dweud bod gweithgareddau'n "rhy ddrud" fel un o'r rhwystrau mwyaf arwyddocaol er mwyn iddyn nhw wneud y pethau maen nhw'n eu mwynhau.
- Mae gan blant yr Hawl i Chwarae ac Ymlacio (Erthygl 31 o CCUHP) fodd bynnag, gall cynnydd mewn costau byw a thoriadau cyllid effeithio ar fynediad plant at gyfleusterau chwarae a hamdden. Er bod mwyafrif y plant a'r bobl ifanc a ymatebodd yn teimlo bod digon i'w wneud yn eu hardal leol, tynnodd yr ymatebwyr sylw yr hoffent weld mwy o barciau chwarae/ardaloedd chwarae, cyfleusterau chwaraeon, canolfannau hamdden/pyllau nofio. Mae'n bwysig bod cyfleusterau chwarae a hamdden yn cael eu diogelu a bod cyfleoedd cynhwysol a hygyrch ar gyfer chwarae a hamdden yn flaenoriaeth ar gyfer cyllid.